

CYNGOR CYMUNED LLANLLYFNI

CYNLLUN HYFFORDDIANT

Mae'n ddyletswydd ar Gyngor Cymuned Llanllyfni ystyried hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr a staff dan Adran 67 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) (2021) a chyhoeddi'r cynllun ar ei wefan.

Pwrpas y Cynllun Hyfforddi yw sicrhau bod y Cynghorwyr a'r Clerc yn meddu ar yr wybodaeth a'r ymwybyddiaeth sydd eu hangen er mwyn i'r Cyngor weithredu'n effeithiol. Nid oes angen i bob Cynghorydd na'r Clerc fod wedi derbyn yr un hyfforddiant na datblygu'r un arbenigedd.

Rhaid rhoi cynllun hyfforddi newydd ar waith ar ôl pob etholiad arferol o gynghorwyr cymuned i adlewyrchu'r anghenion hyfforddi a ddeillia o newidiadau i aelodaeth y Cyngor a darparu ar gyfer ethol cynghorwyr newydd. Dyma'r cynllun cyntaf o'i fath ac fe'i hadolygir yn flynyddol i'w gadw'n gyfredol a pherthnasol.

Mae meysydd craidd er mwyn sicrhau bod gan y Cynghorwyr a'r Clerc sgiliau a dealltwriaeth ddigonol, sef:

- anwytho sylfaenol i gynghorwyr newydd
- y Côt Ymddygiad ar gyfer aelodau Awdurdodau Lleol yng Nghymru
- cynllunio
- rheolaeth ariannol a llywodraethu.

Caiff pob Cynghorydd gynnig mynychu hyfforddiant a datblygiad perthnasol. Mae Un Llais Cymru (ULIC) yn darparu gwybodaeth fisol o'r hyfforddiant ac fe'i dosberthir i'r aelodau. Cynigir yr hyfforddiant yn rhithiol ac mae ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg. Caiff pob Cynghorydd y fersiwn ddiweddaraf o'r canllaw, 'Cynghorydd Da', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a dylent ymgyswngu â'i gynnwys. Yn ogystal, caiff y Clerc gyfle i fynychu hyfforddiant a gynigir gan Gymdeithas y Clercod (SLCC) a thelir tâl aelodaeth y Clerc gan y Cyngor.

Neilltua'r Cyngor Cymuned gyllid yn flynyddol ar gyfer hyfforddiant er mwyn sicrhau y gall y Cynghorwyr a'r Clerc fynychu cyrsiau, cynadleddau a digwyddiadau a drefnir gan y sector.

Bydd y Clerc yn gyfrifol am:

- gylchredeg unrhyw wybodaeth am hyfforddiant addas ac awgrymu cyrsiau perthnasol i aelodau'r Cyngor
- gadw cofnod o'r cyrsiau a fynychwyd yn flynyddol.

Y CYNLLUN

- **Cynghorwyr Newydd** – mynychu'r modiwl a ddarperir gan ULIC o fewn blwyddyn i'w hethol.
- **Pob Cynghorydd** – mynychu modiwl hyfforddiant Côt Ymddygiad ULIC o fewn dwy flynedd i'w hethol.
- Annog pob Cynghorydd fynychu cyrsiau priodol ULIC.
- Annog pob Cynghorydd fynychu cyrsiau Cymorth Cynllunio Cymru, e.e. 'Cynllunio: O'r Dechrau i'r Diwedd' .
- **Cadeirydd ac Is-gadeirydd** – mynychu modiwl Sgiliau Cadeirio ULIC o fewn blwyddyn i'w hethol.
- **Cadeirydd ac Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor Cyllid** – mynychu modiwl 21 Cyllid Llywodraeth Leol o fewn blwyddyn i'w hethol.
- **Clerc** – hyfforddiant parhaus proffesiynol drwy fynychu cynadleddau, seminarau, cyrsiau hyfforddiant, digwyddiadau'r sector yn flynyddol yn ôl y galw.

Mabwysiadwyd: Mehefin 2023

Arwyddwyd:

Cadeirydd: *Ceri Ann Owen*

Clerc: *Nia Jones*